



Annwyl Riant/Warcheidwad

Rydyn ni nawr yn symud mewn i wythnos olaf yr hanner tymor. Rydyn ni'n dal i aros am gyhoeddiadau am drefniadau asesu ac unrhyw gynlluniau dychwelyd i'r safle. Pan ddaw manylion byddwn ni'n rhannu'r rhain gyda chi. Tan hynny, byddwn ni'n parhau gyda'n trefniadau dysgu o bell.

### Cefnogaeth addysg Gymraeg

Mae'r sir wedi darparu syniadau i gefnogi i ieni a gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion uwchradd

<https://spark.adobe.com/page/hK77S5eFjS1Q5/>

Mae llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi syniadau ar y wefan [Welsh4parents.cymru](http://Welsh4parents.cymru).

Os nad ydych chi'n sicr o ystyr darn o waith mae'r Termiadur yn cynnwys y termau allweddol: [Y Termiadur Addysg](http://www.termiaduraddysg.org) ([www.termiaduraddysg.org](http://www.termiaduraddysg.org)). Mae Google translate ([translate.google.com](http://translate.google.com)) yn medru fod yn gymorth hefyd.

### Diwrnod Miwsig Cymru

Mae heddiw yn ddiwrnod miwsig Cymru ac mae nifer o weithgareddau ar gael yn rhithiol i ddathlu'r dydd. Heddiw fydd Dydd Miwsig Cymru yn cymryd dros dudalen gartref AM! Bydd y diwrnod yn dathlu pob ffurf ar fiwsig Cymraeg, o indi, roc, pync, ffync, gwerin, electronica i hip hop, a phopeth yn y canol. Gyda'r byd yn brwydro pandemig y coronafeirws, a ffans miwsig yn methu mynd i berfformiadau byw, mae dathliadau Dydd Miwsig Cymru yn symud ar-lein gyda gigs, fideos a thraciau'n cael eu lansio ar [AM](http://AM). Bydd cyfle hefyd i ymweld â siopau labeli Cymru ar AM - prynwch y finyls, crysau T, tapiau, CDs diweddaraf gan rhai o artistiaid mwyaf cyffrous Cymru. Bydd cyfle hefyd i ddarganfod ac ail-ymweld â rhai o fideos cerddorol wedi'u cyhoeddi gan y labeli dros y blynyddoedd dwethaf.

Dyma ffordd hawdd i chi ymuno yn hwyl Dydd Miwsig Cymru, isod mae yna 5 dolen at gynnwys bydd yn fyw ar wefan AM o 9yb, 5 Chwefror, yn arbennig i ysgolion.

- 'Sut i ddarganfod cerddoriaeth Gymraeg' ar sianel TIM (Menter Iaith Rhondda Cynon Taf) - <https://amam.cymru/tim/sut-i-ddarganfod-cerddoriaeth-gymraeg>
- 'Chydig o Sain' yn cynnwys Mared, Osian Huw Williams a Lewys Wyn ar sianel Urdd Gobaith Cymru - <https://amam.cymru/urddgobaithcymru/chydig-o-sain>
- Mix cerddorol 'Croeso i'r Bore' gan Ani Glass ar sianel Clwb Ifor Bach - <https://amam.cymru/clwbiforbach/croeso-ir-bore-mix-ani-glass>
- Fideo gerddorol newydd i sengl newydd 'Byw i'r Dydd' gan yr elusen Nerth Dy Ben - <https://amam.cymru/nerth-dy-ben/byw-ir-dydd-fideo-gerddoriaeth>
- Fideo o set byw gan Gwilym ar sianel Theatrau Sir Gar - <https://amam.cymru/theatrausirgar/yn-fyw-or-ffwrnes-gwilym-live-from-the-ffwrnes>
- Dyma hefyd linc i gwis cerddoriaeth mae'r BBC wedi creu ar gyfer Dydd Miwsig Cymru. <https://www.dropbox.com/sh/81jezafgw5zrre/AADeAJ6gUETHN0wBhmemQMiea?dl=0>

### Diolch

Diolch i sefydliad Rotary am eu gwaith yn casglu adnoddau TGCh i ysgolion yn ystod y cyfnod anodd hwn. Maent wedi cefnogi ni ag ysgol Penglais gydag adnoddau ychwanegol bydd yn cael eu rhannu dros yr wythnosau nesaf.

Gobeithiaf fod pawb yn parhau yn iach. Cofiwch ein bod yma i ymateb i gwestiynau neu sylwadau. Gallwch gysylltu trwy [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk).

Dr Rhodri Thomas (Pennaeth)